

PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

(O Bell Trwy Teams)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Mercher, 2 Mehefin 2021

Cadeirydd:	Cynghorydd S.Rahaman
Is-gadeirydd:	Cynghorydd S.E.Freeguard
Cynghorwyr:	N.T.Hunt, S.K.Hunt, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry, S.H.Reynolds, R.L.Taylor a/ac A.N.Woolcock
Swyddogion sy'n Bresennol:	K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, H.Jenkins, C.Griffiths, H.Jones, S.Rees, S.Brennan, C.Furlow-Harris, R.Headon, W.John, M.Shaw, P.Walker, J.Woodman-Ralph a/ac C.Davies
Gwahoddedigion y Cabinet:	Cynghorwyr C.Clement-Williams, M.Harvey, D.Jones, L.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees a/ac P.D.Richards
Arsylwyr:	Cynghorwyr S.Lynch

1. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2020/2021 i'r Aelodau.

Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn cynnwys data ar sgiliau iaith staff o fewn y cyngor; gofynnwyd a allai Swyddogion roi adlewyrchiad o sut roedd cyfran y staff yn cymharu â phoblogaeth gyffredinol y Fwrdeistref Sirol. Dywedodd swyddogion eu bod wrthi'n symud i gronfa ddata newydd ar gyfer cyflogres Adnoddau Dynol a fyddai'n gwella'r ffordd y gellid cyflwyno data; gellid darparu'r math hwn o wybodaeth wrth symud ymlaen.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

Datganiad Sefyllfa Alldro Refeniw a Chronfeydd Wrth Gefn
2020/2021

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad mewn perthynas â Datganiad Sefyllfa Alldro Refeniw a Chronfeydd Wrth Gefn y cyngor ar gyfer 2020/2021.

Mynegodd swyddogion yr anhawster a gafwyd dros y flwyddyn ddiwethaf oherwydd pandemig y Coronafeirws a'r angen i ddarparu rhai gwasanaethau mewn ffordd wahanol iawn. Dywedwyd bod yr adroddiad a ddosbarthwyd yn cynnwys y swm sylweddol o arian ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru drwy gydol y flwyddyn, a arweiniodd at ffigurau gwell ar gyfer diwedd blwyddyn ariannol 2021. Cadarnhaodd swyddogion y byddant yn dal i drafod â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rhai o'r honiadau nad oeddent wedi talu eto, a allai newid rhai o'r elfennau a gynhwysir yn yr adroddiad. Ychwanegwyd bod yr archwilyr wedi dechrau gwaith mewn perthynas â rheoli ac adolygu datganiad cyfrifon y cyngor, a bod disgwyl iddynt adrodd wrth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio tua diwedd Gorffennaf 2021; bydd hyn yn cwblhau'r trosolwg o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf mewn perthynas â'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, a bydd yn rhaid i Swyddogion baratoi o ran gofynion cyfrifyddu statudol ar gyfer y datganiadau hynny.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y data a oedd ar gael i helpu i ddeall y gwahaniaethau mewn cronfeydd defnyddiadwy fel canran o'r gwariant ar wasanaethau, ar gyfer pob Awdurdod Lleol yng Nghymru.

Cadarnhaodd swyddogion eu bod wedi gwneud ymholiadau ac adolygu'r dogfennau y cyfeiriodd yr archwilydd atynt mewn cyfarfod diweddar o'r cyngor, a'u bod wedi dod o hyd i adroddiad a baratowyd ganddynt ym mis Hydref 2020 o'r enw 'Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID 19'. Cadarnhawyd y byddai'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn dosbarthu'r adroddiad hwn ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall i'r holl Aelodau yn dilyn y cyfarfod.

Gofynnwyd ar ba bwynt yn y flwyddyn ariannol yr oedd angen asesu'r cronfeydd wrth gefn a phryd oedd y tro diwethaf i'r angen am gronfeydd wrth gefn gael ei asesu. Hysbyswyd yr Aelodau fod pob adroddiad monitro cyllideb a gyflwynwyd i Bwyllgor Craffu'r Cabinet a'r Cabinet yn cynnwys manylion y balansau wrth gefn; y llynedd darparwyd y rhain bob deufis, ac mewn blynyddoedd blaenorol fe'u

darparwyd bob chwarter, yna ar ddiwedd y flwyddyn byddai'r Aelodau'n cael adroddiad ar y sefyllfa derfynol. Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn darparu adroddiad pellach i'r Aelodau yng nghyfnod yr hydref cyn dechrau'r trafodaethau ar y gyllideb ar gyfer 2022/23; byddai'r adroddiad hwn yn nodi beth oedd y balans ar 1 Ebrill 2021, ac yn cynnwys manylion yr hyn a wariwyd neu y'i neilltuwyd i'w wario yn y flwyddyn ariannol gyfredol a'r sefyllfa oedd dangosol ar wariant yn y dyfodol i'r blynyddoedd dilynol. Mynegodd swyddogion bwysigrwydd cadw rhai o'r cronfeydd wrth gefn gan eu bod yn anodd iawn eu hail-lenwi ar ôl iddynt gael eu gwario.

Wrth barhau â'r drafodaeth, tynnodd Swyddogion sylw at y ffaith bod y cyngor wedi bod yn ffodus iawn eleni, ynghyd â'r Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru, gan fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud dyraniadau ychwanegol yn ystod wythnosau olaf y flwyddyn a arweiniodd at wella ffigurau'r cronfeydd wrth gefn; Roedd Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod £2.2 miliwn ar gael i'w wario ar gynnal a chadw ysgolion ac arian amrywiol ar gyfer dal i fyny a dysgu mewn ysgolion. Yn yr un modd, nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymadau ynghylch gwasanaethau cymdeithasol a'r amgylchedd gyda grantiau penodol, a hefyd wedi darparu cymorth ychwanegol ar gyfer gwasanaethau digidol a chasgliadau treth y cyngor. O ran ysgolion, dywedwyd mai cyfrifoldeb y gwahanol gyrff llywodraethu oedd penderfynu sut y byddant yn gwario'r arian yn y flwyddyn gyfredol i helpu gyda dysgu a dal i fyny ar gyfer y plant a oedd wedi colli rhywfaint o'r ddarpariaeth addysg yn ystod camau amrywiol y cyfyngiadau symud. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith y bydd cadarnhad pellach yn cael ei roi dros y misoedd nesaf ynghylch pa fuddsoddiadau a wneir mewn perthynas â'r arian a neilltuwyd o'r cronfeydd wrth gefn; er enghraifft, neilltuwyd £2 filiwn ar gyfer y strategaeth datgarboneiddio a gymeradwywyd yn ddiweddar gan y cyngor. Ychwanegwyd y bydd prosiectau a chyfleoedd buddsoddi'n cael eu darparu i'r Aelodau i'w hystyried mewn perthynas â hyn unwaith bod Swyddogion wedi cael cyfle i neilltuo'r arian a nodi'r ffordd orau o ddefnyddio'r arian hwnnw; bydd llawer o'r cyllid hwnnw'n cael ei ryddhau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Cyfeiriodd yr Aelodau at yr adroddiad 'Taro Cydbwysedd' a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Archwilio ym mis Rhagfyr 2012; yn ôl ymchwil y Comisiwn Archwilio, roedd y rhan fwyaf o Brif Swyddogion Cyllid yn ystyried bod swm o rhwng 3-5% o wariant net y cyngor yn lefel gall ar gyfer cronfeydd wrth gefn sy'n seiliedig ar risg. Gofynnwyd pa ganran oedd cronfeydd wrth gefn sy'n seiliedig ar risg

Cyngor Castell-nedd Port Talbot o ran gwariant net ac a oedd o fewn y 3-5% fel yr amlinellir yn 'Taro Cydbwysedd'? O ran ffigurau, nodwyd mai Cyngor Castell-nedd Port Talbot oedd â'r 9fed balans wrth gefn gorau yng Nghymru o ran cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio a oedd yn cynnwys arian ar gyfer ysgolion ac arian yr oedd y cyngor yn ei neilltuo i gyflawni ymrwymadau'r Fargen Ddinesig ac ymrwymadau tebyg eraill; mae'r ffigurau'n cynnwys cronfeydd cyffredinol wrth gefn yn ogystal â chronfeydd wrth gefn penodol. Esboniwyd bod gan yr Awdurdod Lleol â'r ganran isaf yng Nghymru gronfeydd wrth gefn o tua £11 miliwn (4.6%) ac roedd gan yr Awdurdod Lleol â'r ganran uchaf £83 miliwn (33%); roedd hyn yn dangos amrywiad, ond roedd y symiau o ran gwerthoedd wrth gefn y gellir eu defnyddio hefyd yn dibynnu ar faint o arian a ddyrannwyd i ysgolion. Nodwyd bod cyllideb CNPT ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 yn £306 miliwn, lle cyfrifwyd bod tua 19% o'r gyllideb net yn cael ei chadw yn y cronfeydd wrth gefn. Dangosodd yr adroddiad a ddosbarthwyd fod cronfeydd cyffredinol y cyngor ar hyn o bryd yn cau ar ychydig dros £20 miliwn (6.34%) o'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol, sef £316.2 miliwn; fodd bynnag, gan ystyried bod y cyngor wedi neilltuo £3.1 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn hynny i fantoli'r gyllideb yn 2021/22, y balans rhagamcanol yn seiliedig ar y ffigurau cau oedd tua £16.9 miliwn (5.36%) a oedd ychydig dros y 5% a grybwyllwyd yn yr adroddiad 'Taro Cydbwysedd'.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chronfeydd cyffredinol wrth gefn a threth y cyngor, wrth i Aelodau fynegi eu pryderon ynghylch faint o gronfeydd wrth gefn oedd eu hangen mewn gwirionedd. Dywedodd swyddogion fod pob 1% o dreth y cyngor yn cyfateb i tua £770,000; cynyddodd y cyngor dreth y cyngor 2.5% yn ddiweddar, a olygai y byddai £2 filiwn wedi'i neilltuo ymhellach i'r cyllidebau. Ychwanegwyd pe na bai'r £2 filiwn wedi'i neilltuo, yna byddai'r ffigur wrth gefn wedi bod yn is na 5%; fodd bynnag, bu'n rhaid i Swyddogion ystyried y risgiau o ran rheoli'r gyllideb wrth symud ymlaen ac roeddent yn gallu cynnwys codiad cyflog o 1% i staff addysgu a staff nad oeddent yn addysgu yn y gyllideb sylfaenol ar gyfer y flwyddyn nesaf a chaniatáu hefyd ar gyfer rhai cynlluniau wrth gefn. O ran y trafodaethau ar godiadau cyflog cenedlaethol, tynnwyd sylw at y ffaith bod y codiadau cyflog llyfrau gwyrdd wedi gwrthod codiad cyflog 1.5% y cynghorau (Cymru a Lloegr) ar gyfer y flwyddyn gyfredol; roedd y posibilrwydd y byddai'r cyngor yn gorfod defnyddio cronfeydd wrth gefn gyda chodiad cyflog sy'n sylweddol uwch na'r £3.1 miliwn a neilltuwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, yn cynyddu bob munud. Roedd swyddogion yn argymhell y byddai heriau

eraill i'w hwynebu gan nad ydym wedi adfer yn llawn o'r pandemig; bydd angen i'r cyngor ystyried sut i reoli'r cyllid a ryddheir gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru dros 10 mis nesaf y flwyddyn ariannol gyfredol ac i flynyddoedd dilynol, gan y bydd yn dylanwadu ar faint o gronfeydd wrth gefn oedd eu hangen a faint y gellid ei ddefnyddio i reoli gweithgareddau dros y blynyddoedd nesaf.

Dywedwyd bod swm ychwanegol o £12 miliwn wedi'i roi yng nghronfeydd wrth gefn y cyngor; Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw gynlluniau ar gyfer sut y byddai'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio. Hysbyswyd yr Aelodau, ar ôl i benderfyniadau gael eu gwneud mewn perthynas â sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn (y disgwylir iddynt fod ar gael ar ddiwedd y flwyddyn ariannol), fod y cyngor wedi cael llawer o arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru; felly wrth symud ymlaen i adferiad o'r pandemig, roedd angen canolbwyntio meddyliau ar sut y gellid defnyddio'r arian ychwanegol hwn. Soniwyd bod llawer o'r arian eisoes wedi'i ddyrannu'n benodol i rai meysydd fel ysgolion. Nodwyd y byddai Aelod y Cabinet dros Gyllid yn gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, y Pennaeth Cyllid ac Uwch-swyddogion i nodi blaenoriaethau yn y dyfodol.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd yn ddigwyddiad rheolaidd fod Llywodraeth Cymru'n darparu arian ychwanegol ar ddiwedd blwyddyn ariannol. O ran cyhoeddiadau hwyr, cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru yn aml wedi gwneud cyhoeddiadau yn ystod mis Ionawr/Chwefror y blynyddoedd ariannol, ond roeddent fel arfer yn gysylltiedig â gofal cymdeithasol a rhai meysydd yn yr amgylchedd, er mwyn caniatáu i brosiectau gael eu hariannu a'u cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith nad oedd y cyngor erioed wedi gweld y swm hwn o arian a gadarnhawyd yn y flwyddyn ariannol gyfredol; roedd y sefyllfa ariannol wedi newid yn eithaf dramatig yn ystod y flwyddyn. Cyfeiriwyd at y crynodeb o'r cyllid COVID a dderbyniwyd yn 2020/21 a gynhwyswyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd; roedd cyngor wedi derbyn ad-daliad o wariant ychwanegol a oedd yn dod i gyfanswm o £14.5 miliwn ac wedi derbyn ad-daliad ar gyfer yr incwm a gollwyd oedd yn dod i gyfanswm o £9.6 miliwn. Ychwanegwyd bod Llywodraeth Cymru hefyd wedi cymeradwyo rhai honiadau hwyr iawn yr oedd y cyngor wedi'u gwneud am golli incwm yn y chwarter cyntaf oedd yn ymwneud â phethau fel trwyddedu a chofrestryddion. Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd hefyd yn rhoi manylion cyllid pellach Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ystod mis Mawrth, sef

cyfanswm o £4.4 miliwn; roedd hyn yn cynnwys meysydd fel trawsnewid digidol, cymorth gyda threth y cyngor a'r economi gylchol. Hysbyswyd yr Aelodau fod staff yn y Tîm Ardrethi Busnes a'r Tîm Datblygu Economaidd wedi bod yn gweithio'n galed i dalu'r grantiau amrywiol i fusnesau yn y Fwrdeistref Sirol; hyd yma roedd £47.6 miliwn wedi'i dalu drwy gydol y flwyddyn ariannol ac roedd y timau'n dal i ddarparu'r grantiau hyn i fusnesau. Esboniodd swyddogion fod grantiau hefyd yn cael eu darparu i ofalwyr, y rhai ar y cynllun tâl salwch, preswylwyr a gynghorwyd gan y gwasanaeth Profi Olrhain a Diogelu i hunanynysu ac i breswylwyr Sgiwen yr effeithiwyd arnynt gan y llifogydd diweddar.

Gofynnodd y Pwyllgor am ba mor hir y bu cronfeydd wrth gefn y oddeutu 20 miliwn. Cadarnhawyd bod y cronfeydd cyffredinol wrth gefn wedi bod rhwng £18 miliwn a £19 miliwn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf; roedd rhan o hyn oherwydd y gyfradd adennill treth y cyngor ragorol. Soniodd swyddogion fod cynllun cymorth treth y cyngor ar waith ar gyfer y rheini a oedd fwyaf agored i niwed ac angen cymorth, a darparwyd cymorth ychwanegol sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ac ar ddechrau'r flwyddyn gyfredol; oherwydd gwaith caled ac ymrwymiad staff, casglodd y cyngor 97.9% o dreth y cyngor o'r llynedd. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai hyn yn helpu i sicrhau y byddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot mewn gwell sefyllfa yn y blynyddoedd i ddod i allu ailgychwyn gwaith pwysig wrth i'r wlad symud i adferiad o'r pandemig.

Pan fyddai Swyddogion yn dod yn ymwybodol o'r arian a neilltuwyd, p'un a oedd wedi'i dderbyn ai peidio, gofynnwyd iddynt fod yn rhan o'r drafodaeth ar y gyllideb. Dywedwyd bod Swyddogion, yr adeg hon y llynedd, yn pryderu'n fawr nad oedd Llywodraethau'r DU a Chymru wedi cyhoeddi unrhyw arian ychwanegol i helpu i reoli cychwyniad y pandemig; cymerodd beth amser i'r ddwy lywodraeth gyflwyno arian mewn gwirionedd ac roedd manylion amryfal gyhoeddiadau wedi newid megis gwybodaeth am y Cynllun Ffyrlo a'r arian roeddent yn ei ddarparu ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd. Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn nodi bod y cyngor wedi cael ad-daliad o £24 miliwn am gostau uwch a cholli incwm; yr adeg hon y llynedd, cyflwynodd Swyddogion adroddiad i'r Aelodau a oedd yn nodi y gallai'r cyngor fod yn wynebu diffyg o £20 miliwn pe na bai arian ychwanegol ar gael. Nodwyd bod y sefyllfa wedi newid ers symud ymlaen o effaith gychwynnol y pandemig ac ers i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gyhoeddi arian y gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol; roeddent wedi cyhoeddi bod £206 miliwn ar gyfer rheoli Cronfa

Galedi'r Awdurdod Lleol am y 6 mis cyntaf ac roeddent wedi clustnodi £32 miliwn arall i'r Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu er mwyn gallu ymestyn y gwasanaeth hyd at fis Mawrth 2022, a oedd yn newyddion da gan ei fod yn caniatáu i'r cyngor gael parhad gwasanaeth ar rai o'r elfennau hynny. Soniodd swyddogion eu bod weithiau'n ymwybodol o rai o gyhoeddiadau'r Llywodraeth, a bod y rhain bob amser yn cael eu hystyried pan gânt eu gwneud; fodd bynnag, roedd oedi weithiau o ran colli hawliadau incwm ar gyfer y chwarter.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

2. **EITEMAU BRYD**

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r materion sydd wedi'u cynnwys yng Nghofnod Rhif. 4 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi'r eitemau hyn yng nghyfarfod heddiw fel eitemau brys yn unol ag Offeryn Statudol Rhif 2290 (fel y'i diwygiwyd).

Rhesymau dros y brys:
Oherwydd yr elfen amser.

3. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

PENDERFYNWYD: Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

4. **CONTRACT Y GWASANAETH IEUENCTID YN Y DDALFA (YCS) GYDA CHYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT, DRWY GARTREF DIOGEL I BLANT HILLSIDE**

Darparwyd adroddiad i'r Aelodau a oedd yn nodi'r materion hanesyddol a chyfredol sy'n ymwneud â'r trefniadau cytundebol yr oedd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, drwy Gartref Diogel i Blant Hillside, â'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalffa.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

CADEIRYDD